# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd J.Arwel Roberts (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr E.G.Davies; Lewis Davies;<br>Jim Evans; W.T.Hughes; K.P.Hughes; T.H.Jones;<br>Clive McGregor; R.L.Owen; Eric Roberts;<br>H.W.Thomas; J.Penri Williams; |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ);<br>Cynorthwyydd Cynllunio (ER);<br>Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff) (RWW),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ);<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ);<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE);<br>Swyddogion Pwyllgor (MEH/JMA). |
| **YMDDIHEURIAD:** | Y Cynghorydd W.J. Chorlton. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheuriad fel sydd wedi ei nodi uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2012.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd a nodwyd – cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2012.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau **7.1, 7.4, 8.1, 12.8 a 12.10.**

**6 CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 –19C1046A/EIA/ECON – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda marina newydd, eiddo preswyl, gwesty, defnyddiau masnachol, hamdden ac adwerthu ynghyd â gwaith cysylltiedig i adennill tir ac isadeiledd gwasanaethau yng Nglannau Caergybi, Caergybi.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio yr adroddwyd yn flaenorol ar y cais yn y Pwyllgor ar Ionawr 4 ac yr ymwelwyd â'r safle ar 15 Ionawr 2012. Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 21 Chwefror ac, yn dilyn dadansoddi'r wybodaeth ychwanegol honno, gwnaed gwaith ymgynghori statudol a chyhoeddusrwydd pellach ar 13 ac 15 Mawrth. Daeth y cyfnod ymgynghori statudol i ben ar 3 Ebrill a'r cyfnod o gyhoeddusrwydd statudol i ben ar 13 Ebrill.

Fodd bynnag, fe fethodd nifer o ymgyngoreion ag ymateb o fewn yr amserlen hon, yn fwyaf arbennig yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yr Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i ymestyn yr amser sydd gan yr awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ar y cais hyd at 8 Mehefin 2012.

**PENDERFYNWYD gohirio rhoi sylw i'r cais fel yr argymhellwyd gan y Swyddog a bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhelir ar 6 Mehefin.**

## 7 CEISIADAU YN CODI O'R COFNODION

### 7.1 – 28C445D - Cais llawn ar gyfer llety byw a chysgu ychwanegol i gymryd lle'r siale a'r garafan statig, addasu ac ehangu llawr cyntaf yr annedd bresennol, creu pwll nofio wedi ei amgáu ac addasu'r fynedfa i gerbydau ynghyd â chynlluniau diwygiedig i'r garej a gymeradwywyd yn The Bungalow, Ffordd Maelog, Rhosneigr

*Dywedodd y Cynghorydd Jim Evans a'r Cynghorydd Clive McGregor nad oeddent yn bresennol yn yr ymweliad â'r safle ac felly ni chymerasant unrhyw ran yn y bleidlais ar y cais.*

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2012, penderfynodd y Pwyllgor ohirio penderfynu'r cais er mwyn cael ymweld â'r safle. Ymwelwyd â'r safle ar 18 Ebrill 2012.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod yr annedd ar gyrion pentref Rhosneigr ac o fewn y ffin ddatblygu a hefyd o fewn yr AHNE. Mae'r cynnig yn cynnwys gwneud gwaith altro ar yr annedd, trwy ddarparu teras to, dymchwel y garej sydd yno ar hyn o bryd a chodi un newydd gyda lle ar y llawr cyntaf i ddarparu ystafell chwaraeon. Bydd yr estyniad arfaethedig o gwmpas 2 metr yn uwch na'r garej a adeiladwyd yn ddiweddar. Mae digon o le ar y safle ar gyfer y cynnig. Mae'r pellteroedd rhwng eiddo cyfagos yn cydymffurfio gyda'r canllawiau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mrs Rothwell annerch y cyfarfod i gefnogi ei chais. Dywedodd Mrs Rothwell bod y teulu wedi bod yn berchen ar eiddo yn Rhosneigr am 35 o flynyddoedd ac wedi bod yn byw yn The Bungalow, Ffordd Maelog am 14 o flynyddoedd. Ffrâm bren sydd gan yr annedd, ac mae bellach yn pydru'n ddrwg ac fel teulu, maent wedi gwario llawer o arian ar yr eiddo dros y blynyddoedd. Dywedodd fod y teulu wedi mynd yn rhy fawr i'r eiddo cyfredol ac y bydd cais arfaethedig ar gyfer 4 cenhedlaeth o'r teulu. Mae'n hollbwysig cael lle storio a lle ar gyfer y teulu cyfan yn gyffredinol. Mae digon o le parcio ar gael ar y safle. Nododd ymhellach fod gohebiaeth wedi ei hanfon at eu cymdogion yn esbonio'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â'r cais.

Anerchwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Richard Dew fel yr Aelod Lleol. Dywedodd y byddai'r cais arfaethedig yn estyniad o 75% ar yr eiddo cyfredol. Byddai'r cais yn cael effaith ddramatig ar yr ardal leol a'r eiddo cyfagos. Bydd yr adain i westeion gyda theras to a fyddai'n 10 metr o uchder; byddai 2 fetr yn uwch na'r garej nad yw'n cael ei defnyddio ger yr eiddo. Nid oedd y Cynghorydd Dew yn cytuno gyda datganiad y Swyddogion yn yr adroddiad na fyddai'r cais yn cael effaith ar fwynderau eiddo cyfagos. Nododd y byddai gan yr annedd arfaethedig 11 o ystafelloedd gwely ac roedd yn ystyried y byddai parcio yn broblem ar y safle. 'Roedd yn gwestiwn ganddo a fyddai'r tanc septig yn gallu ymdopi gydag annedd mor fawr ynghyd â'r gofynion ar gyfer draenio dŵr o'r pwll nofio. Dywedodd y Cynghorydd Dew fod y datblygiad yn ffinio gyda'r afon ac yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Holodd a ymgynghorwyd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas â'r cais?

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas fod yr estyniad i'r annedd yn un sylweddol. Soniodd bod angen tanc septig mawr ar gyfer annedd o'r maint hwn. Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod yn ystyried y byddai'r annedd arfaethedig yn cael effaith andwyol ar yr eiddo cyfagos.

Roedd y Cynghorydd T.H. Jones yn cytuno bod yr annedd yn un o faint sylweddol a mynegodd bryderon ei bod yn ffinio gyda'r AHNE.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio nad oedd yn cytuno gyda'r datganiad a wnaed gan yr Aelod Lleol y bydd yr annedd arfaethedig yn estyniad 75% ar yr eiddo cyfredol. Roedd yn ystyried bod yr estyniadau i'r eiddo yn cyfateb i 40%. Yn ei farn ef, y prif wrthwynebiadau oedd codi adain i westeion oherwydd ei fod 1.8m yn uwch na'r garej sydd ger y safle ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon eraill hefyd y gallai'r eiddo cyfagos o'r enw Sanderlings gael ei effeithio oherwydd colli golau, preifatrwydd a golygfeydd. Roedd y pellteroedd rhwng y ddau eiddo yn cydymffurfio gyda gofynion Adran 9 y CCA a fabwysiadwyd gan y Cyngor - Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig. Cyfeiriodd y Swyddog at sylw a wnaed gan yr Aelod Lleol na fyddai digon o le parcio yn yr annedd arfaethedig. Dywedodd bod y safle yn un sylweddol ac roedd yn ystyried bod digon o le i barcio arno. Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio at y materion draenio a gododd yr Aelod Lleol. Soniodd bod yr ymgeisydd wedi dweud y byddai'r dŵr o'r pwll nofio yn cael ei wagio trwy dancer gwastraff ac nid trwy'r system ddraenio. Dywedodd hefyd bod yr Adain Ddraenio wedi ymateb trwy ddweud bod maint y tanc septig yn cydymffurfio gyda'r safonau gofynnol. Nid ymgynghorwyd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru oherwydd nad oedd angen gwneud hynny gyda chais o'r math hwn.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes ei fod yn ystyried na fyddai'r annedd arfaethedig allan o gymeriad yn ardal Rhosneigr a chynigiodd gymeradwyo'r cais. Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd J.P. Williams.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad.**

**7.2 – 40C204G – Codi uned wyliau newydd yn Bryn Awelon, Llanallgo.**

*(Gwnaed ddatganiad o ddiddordeb yn y cais gan y Cynghorydd J.P. Williams a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio ar 4 Ebrill ar gais yr Aelod Lleol.

Dywedodd bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am ymweliad â'r safle ar gyfer y cais hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd H.W. Thomas y dylid ymweld â'r safle er mwyn medru asesu lleoliad y safle mewn perthynas â phentref Moelfre gerllaw. Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol i weld sut byddai'r cynnig yn eistedd o fewn y safle.**

**7.3 – 41C109D – Cais amlinellol i godi annedd a garej, adeiladu mynedfa i gerbydau ynghyd â gwaith tirlunio ar dir ger Artwood, Star.**

*Dywedodd y Cynghorwyr Jim Evans a Clive McGregor nad oeddent yn bresennol yn yr ymweliad safle ac ni wnaethant gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar y cais.*

Cyflwynwyd y cais yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol pan benderfynwyd ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad. Ymwelwyd â'r safle ar 18 Ebrill 2012.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Eric Jones, fod nifer o Bwyllgorau yn y Cyngor hwn wedi pwysleisio y dylai'r awdurdod gefnogi pobl ifanc leol sy'n dymuno byw yn eu cymunedau eu hunain. Bydd yn diogelu'r cefn gwlad a'r iaith Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei fod yn ystyried y byddai'r annedd yn ymwthio allan o'r pentref ac nad yw'n estyniad rhesymegol. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, cytunodd y Pwyllgor gyda'r datganiad hwn pan gyflwynwyd y cais i'w ystyried. Cyfeiriodd at ddatganiad a wnaed gan yr Aelod Lleol y byddai'r annedd arfaethedig ar gyfer person lleol; dywedodd y Swyddog nad oedd modd rheoli pwy

fyddai'n byw yn yr anedd yn y dyfodol ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai person lleol neu berson Cymraeg yn byw yno.

Roedd y Cynghorydd T.H. Jones yn ystyried y gellid cymeradwyo'r cais yn amodol ar wneud gwaith tirlunio sensitif ac y dylid ceisio dod i gytundeb gyda'r ymgeisydd mai hon fydd yr unig annedd a gymeradwyir ar y safle hwn.

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas ei fod yn bwysig cofio mai cais yw hwn gan gwpl lleol sy'n dymuno adeiladu cartref ar y safle. Roedd yn ystyried bod lle i fod yn hyblyg yn yr achos hwn ac roedd yn falch bod y Pwyllgor wedi ymweld â'r safle i weld y cais. Nododd bod ychydig o eiddo eraill wedi eu hadeiladu ger y safle hwn. Roedd y Cynghorydd Thomas yn credu bod y cais hwn ychydig yn wahanol i'r un a gyflwynwyd yn flaenorol oherwydd bod yr ymgeisydd wedi cynnig Cytundeb Adran 106 gyda'r cais ynghyd ag amodau sgrinio. Ar ôl ymweld â'r safle, roedd yn credu fod hwn yn estyniad naturiol i'r pentref a chynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais. Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw yn wahanol oherwydd bod y plot yn fwy ac na fyddai'r amodau sgrinio arfaethedig ond yn 2 droedfedd a 4 modfedd ar ochr y plot. Nid oedd y Swyddog yn ystyried ei fod yn gynllun tirlunio sylweddol. Cyfeiriodd at y cynnig i arwyddo Cytundeb Adran 106 i gyfyngu ar ddatblygiadau pellach ar y safle; dywedodd bod ceisiadau tebyg wedi dod gerbron y Pwyllgor sawl gwaith i gael gwared ar Gytundebau Adran 106 ac na ddylid defnyddio hyn i gyfiawnhau cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes i'r polisi. Ychwanegodd nad oes ffin ar gyfer y pentref a bod Polisi 50 yn cael ei ddefnyddio fel y gellir codi anheddau unigol ar ffin neu ar derfyn naturiol pentref. Dywedodd nad yw'r cais hwn yn disgyn o fewn ffin naturiol y pentref.

Roedd y Cynghorydd K.P. Hughes yn cytuno y dylid cefnogi pobl leol ond oherwydd bod y cais wedi ei wrthod ym mis Rhagfyr, cynigiodd y dylid ei wrthod. Roedd y Cynghorydd J.P. Williams yn credu nad oedd y cais o fewn ffiniau'r pentref ac eiliodd y cynnig i wrthod.

Roedd y bleidlais fel a ganlyn:-

Gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog: Y Cynghorwyr E.G. Davies, Lewis Davies, K.P. Hughes, J.P. Williams. Cyfanswm 4

Cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog: Y Cynghorwyr W.T. Hughes, T.H. Jones, R.L. Owen, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, H.W. Thomas. Cyfanswm 6

Y rhesymau a roddwyd dros gymeradwyo'r cais oedd bod yr Aelodau yn credu bod y cais yn cydymffurfio gyda Pholisi 50 a'i fod yn estyniad naturiol i'r pentref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf fel bod modd rhoi cyfle i'r Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau dros gymeradwyo'r cais.**

**7.4 - 44C290A – Codi 2 dyrbin gwynt gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 29.6m, diamedr rotor hyd at 20m ac uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 39.6m ar dir yn Bodneithior, Llandyfrydog.**

*(Gwnaeth y Cynghorwyr T.H. Jones a Lewis Davies ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas â'r cais a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

*(Dywedodd y Cynghorydd W.T. Hughes na fyddai'n cymryd rhan yn yr eitem ond arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais).*

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i Swyddog sy'n gweithio i'r Cyngor. Ymwelwyd â'r safle ac ers hynny tynnwyd y cais oddi ar y rhaglen hyd nes y byddai Rhestr Wirio'r Cyngor wedi ei chyhoeddi ar gyfer Ceisiadau am Dyrbinau Gwynt.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Miss Mairede Thomas annerch y cyfarfod i wrthwynebu'r cais. Dywedodd Miss Thomas fod gwybodaeth mewn perthynas â'r cais hwn wedi bod yn absennol, yn gamarweiniol neu'n anghywir o'r cychwyn cyntaf. Nid oes unrhyw ffotogyfosodiadau o fannau sydd agosaf i'r safle - y ffordd, y llwybr beicio a'r llwybrau troed; ac nid yw'r rheini a ddarparwyd yn cwrdd â Safonau'r Sefydliad Tirwedd. Honnir nad oes unrhyw adeiladau rhestredig yn yr ardal leol - gan anwybyddu clwstwr o 5 o Adeiladau Rhestredig. 'Roedd yr asiant wedi diystyru'r effaith andwyol ar y dirwedd hanesyddol a'r dirwedd ddiwylliannol werthfawr trwy ddisgrifio'r datblygiad fel un dros dro a thrwy honni bod y tyrbinau yn rhai bychan er eu bod o faint canolig. Dywedir hefyd bod 'sgrinio naturiol ar gyfer y safle' - fodd bynnag, edrychodd yr adroddiad gweledol ar ardal 2km o gwmpas y safle a daeth i'r casgliad y gellid gweld y tyrbinau, mae'n debyg, o 60% o'r ardal oherwydd ei natur agored. Nododd bod golygfeydd godidog ar draws y safle wrth i chi esgyn y ffordd tuag at ben uchaf sgarp yr AHNE, a oedd yn llai na chilomedr i ffwrdd. Byddai modd gweld y tyrbinau o lawer pellach na'r 2km a arolygwyd. Mae'r asiant yn honni bod y gymuned leol yn cefnogi, ond nid yw 'r llythyrau y mae'r Cyngor wedi eu derbyn yn cadarnhau hynny. Mae'r ymgeisydd yn honni 'cefnogaeth lwyr o bolisi cenedlaethol' , gan ddiystyru'r meini prawf a restrir yn y Cynllun Lleol. Mae Gweinidog Cynllunio Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio'n cadarnhau pwysigrwydd y Cynllun Lleol a'r angen i ddiogelu tirweddau.

Dywedodd Miss Thomas fod pobl gogledd-ddwyrain Ynys Môn wedi byw am flynyddoedd gyda Wylfa, ei llinellau pŵer a'r ffermydd gwynt, ac wedi goddef mwy na'u siâr deg o ddatblygiadau ynni carbon isel. Dywedodd fod y cynnig yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yn niweidio sefyllfa'r Adeiladau Rhestredig; bydd yn niwed sylweddol i fwynderau preswyl nifer o anheddau ac i fwynderau gweledol twristiaid a thrigolion, yn arbennig pan fyddir yn defnyddio'r llwybrau troed a'r llwybr beicio cyfagos. Bydd effaith weledol andwyol sylweddol ar y golygfeydd a fwynheir o'r AHNE ac mae effaith gronnol y datblygiad arfaethedig hwn yn annerbyniol, o gofio y gellid gweld y tyrbinau cyfredol yn y pellter a'r rheini sy'n agosach i'r safle ac a gymeradwywyd yn ddiweddar, a hefyd y peilonau sy'n golygu rhagor o dyrbinau ymwthiol gweledol yn y dirwedd.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr McGarry annerch y cyfarfod fel asiant i'r ymgeisydd. Dywedodd Mr McGarry fod y cais wedi denu nifer o wrthwynebiadau mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, styrbans sŵn a'r effeithiau posib ar ecoleg. Dywedodd ei fod yn annerch y Pwyllgor i ddwyn sylw at y ffaith nad yw pryderon y gwrthwynebwyr yn cyfiawnhau gwrthod y cais. Fodd bynnag, roedd pryderon y gwrthwynebwyr wedi eu hystyried yn ofalus gan swyddogion cynllunio proffesiynol ac ymgyngoreion statudol. Dilyswyd y cais ar 23 Medi 2011 ac er gwaethaf nifer o ymgynghoriadau, mae'r cyflwyniadau ychwanegol oll wedi golygu costau sylweddol i'r ymgeisydd. Roedd yn ystyried bod y cais yn haeddu cael ei gymeradwyo oherwydd ei fod yn cydymffurfio'n llawn gyda'r polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu hannog. Mae'r datblygiad arfaethedig o fewn 1km i AHNE ond mae'r asiant wedi cynnal ymarfer i fesur effaith y datblygiad ar yr AHNE. Mae'r holl gyflwyniadau wedi cwrdd â gofynion yr adain dirwedd ac mae'r Swyddog Tirwedd yn casglu nad yw'r cynnig o faint sy'n niweidiol i'r AHNE nac i'r amgylchedd arfordirol. Mae'r Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wedi cadarnhau na fydd sŵn neu gysgod-gryniant yn cael effaith ar eiddo cyfagos. Mae'r cais yn cydymffurfio gyda'r holl restrau gwirio ar gyfer polisïau cynllunio a gofynion y rheini yr ymgynghorwyd â hwy. Roedd yn ystyried y dylid cymeradwyo'r cais.

Fel yr Aelod Lleol, mynegodd y Cynghorydd A.M. Jones ei bryderon difrifol ynghylch y drefn. Mae canfyddiad na fydd yr Awdurdod hwn yn delio gydag unrhyw gais hyd nes y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ar dyrbinau gwynt wedi eu sefydlu. Mae'r CCA cyfredol 20 mlynedd ar ei hôl hi, felly nid oes modd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar bolisi sydd wedi dyddio. Holodd a oedd Asesiad o Fwynderau Preswyl wedi ei gyflwyno yn yr ychydig ddyddiau diwethaf? Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod Asesiad Mwynderau Preswyl wedi ei dderbyn ychydig o ddyddiau yn ôl. 'Roedd yn gwestiwn gan y Cynghorydd Jones felly a gafwyd digon o amser i ystyried yr Asesiad yn iawn? Gofynnodd am i'r cais gael ei ohirio hyd nes bod polisïau priodol wedi eu sefydlu.

Dywedodd y Cadeirydd bod raid penderfynu'r cais un ffordd neu'r llall heddiw oherwydd bod yr ymgeisydd wedi dweud y bydd yn mynd i apêl ar sail diffyg penderfyniad ar ôl 23 Mai.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai'r rheswm am dynnu'r cais oddi ar y rhaglen ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf oedd er mwyn cael gwybodaeth am y rhestr wirio ar gyfer cynllunio ac nid i ddisgwyl am Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd ar gyfer tyrbinau gwynt. Roedd y Swyddogion Cynllunio wedi bod yn trafod y cais gyda'r ymgeisydd am nifer o fisoedd gan ddweud eu bod yn bwriadu argymell cymeradwyo'r cais hwn. Cyfeiriodd y Swyddog at yr adroddiad sy'n dweud, yn unol â rhestr wirio'r Cyngor ar gyfer Ceisiadau Cynllunio, fod y Swyddog Priffyrdd wedi gofyn am fanylion mewn perthynas â'r llwybr ac ynghylch sut y byddai'r tyrbinau gwynt yn cael eu danfon i safle'r cais a bod rhai manylion wedi eu cyflwyno gan yr ymgeisydd. Mae'r Swyddogion Cynllunio a Phriffyrdd yn ymwybodol o'r llwybr ac yn fodlon gydag ef fel ffordd i'w defnyddio i ddanfon y tyrbinau gwynt i'r safle. Mae'r Swyddogion hefyd wedi edrych ar y rhestr wirio ar gyfer mwynderau preswyl ac maent yn fodlon gyda'r wybodaeth a gafwyd. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod yr Awdurdod Cynllunio yn gyfforddus gyda'r cais ond y byddai angen datganiad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd yn rhoi manylion am y llwybr yr oeddent yn bwriadu ei ddilyn i ddanfon y tyrbinau gwynt i'r safle. Nododd bod yr Awdurdod Cynllunio yn fodlon caniatáu i drigolion lleol weld y datganiad ysgrifenedig a gwneud sylwadau arno. Os daw pryderon i'r fei sy'n codi rhagor o faterion nad ydynt wedi cael sylw eisoes, efallai y bydd angen ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion am drafodaeth bellach.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y dylid cymeradwyo'r cais a rhoi pwerau dirprwyol i'r Swyddogion Cynllunio mewn perthynas â'r asesiad a chynnwys amod ar y materion priffyrdd.

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas fod ganddo amheuon mewn perthynas â'r peiriannau trwm a fydd yn teithio ar lonydd gwledig cul i'r safle hwn. Cyfeiriodd at baragraff 7 yr adroddiad. Roedd yn credu y byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith andwyol ar y dirwedd ac yn cael effaith weledol hefyd. Dywedodd fod hwn yn gais am 2 dyrbin gwynt mewn cefn gwlad agored sy'n agos i AHNE. Dywedodd na allai gefnogi'r cais a chynigiodd y dylid ei wrthod. Eiliwyd y cynnig i wrthod gan y Cynghorydd Eric Roberts.

Nid oedd y Cynghorydd K.P. Hughes yn credu y byddai'r tyrbinau gwynt yn cael effaith ar eiddo eraill. Fodd bynnag, nododd bod tyrbinau gwynt wedi achosi pryderon mewn perthynas â'r effaith ar dwristiaeth, ond gan drin y cais hwn ar ei ben ei hun, cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais. Dywedodd y Cynghorydd C. McGregor fod y tyrbinau gwynt yn rhai sylweddol ond nad ydynt yn uwch na'r peilonau trydan ger y safle ac eiliodd y cynnig i gymeradwyo. Roedd y Cynghorydd J.P. Williams yn teimlo mai bygythiad oedd y byddai'r ymgeisydd yn mynd i apêl pe bai'r cais yn cael ei wrthod. Roedd yn credu, oherwydd nad oedd Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol ar gyfer Tyrbinau Gwynt, fod hynny'n creu problem i'r Pwyllgor Cynllunio o ran gwneud penderfyniad. Argymhellodd y Cynghorydd E.G. Davies y dylid gohirio'r cais.

Yn dilyn trafodaethau pellach, roedd y bleidlais fel a ganlyn :-

**Cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog:** Y Cynghorwyr Jim Evans, K.P. Hughes, C. McGregor, J. Arwel Roberts Cyfanswm 4

**Gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog:**
Y Cynghorwyr R.L. Owen, Eric Roberts, H.W. Thomas, J.P. Williams Cyfanswm 4

**Gohirio'r cais :** Y Cynghorydd E.G. Davies Cyfanswm 1

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd a dirprwyo grym i gymeradwyo i'r Swyddogion yn amodol ar gynnal asesiad o'r datganiad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd mewn perthynas â'r llwybr y maent yn bwriadu ei ddilyn i ddanfon y Tyrbinau Gwynt.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

**8.1 – 34C40Z/EIA/ECON – Codi gwaith Ynni Biomas newydd yn cynnwys gwaith peledi pren, gwaith ynni biomas, gwres cyfun, peiriannau tynnu rhisgl a naddu pren, iard storio coed ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Peboc, Stad Ddiwydiannol, Llangefni.**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor am ei fod yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Gwynne Morris Jones a oedd yn cynrychioli Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a Chwmni Tref Llangefni i annerch y cyfarfod mewn gwrthwynebiad i'r cais. Dywedodd Mr Jones bod adroddiad y Swyddog yn nodi'n glir paham y dylid gwrthod y cais. Cyfeiriodd at y casgliadau yn yr adroddiad o ran ansawdd yr aer lleol; dywedodd fod ganddo gopi o waith ymchwil ynghylch y gwaith llosgi peledi pren y bwriedir ei wneud yn y safle hwn ac effaith hynny o bosibl ar ansawdd yr aer. Ym marn Mr Jones, nid oedd strwythur y ffyrdd i'r safle yn ddigonol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Peter Kellett, asiant yr ymgeisydd i annerch y cyfarfod. Gofynnodd Mr Kellett i'r Pwyllgor ohirio ystyried y cais er mwyn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd ryddhau'r drwydded weithredu drafft ar gyfer y gwaith ar 9 Mai 2012. Dywedodd y byddai'r gwaith yn creu 250 o swyddi adeiladu a 62 o swyddi parhaol ynghyd â 100 o swyddi cefnogol yn y maes trafnidiaeth a choedwigaeth. Yn wyneb y colledion diweddar o ran swyddi ar Ynys Môn, bydd ein datblygiad £100,000,000 yn gyfle i'r Ynys gadw swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Mae'r astudiaeth asesiad sŵn, llygredd ac effaith ynghyd ag astudiaethau eraill o ran trafnidiaeth a bywyd gwyllt wedi cael eu cwblhau dros y tair blynedd diwethaf ac maent yn cydymffurfio gyda'r holl safonau y gwyddys amdanynt. Safle Peboc fyddai'r pumed gwaith sy'n gweithredu'n llwyddiannus i gynhyrchu 100% o adnoddau biomas lleol. Prif resymau'r Swyddog Cynllunio dros argymell gwrthod y cais yw Perfformiad Amgylcheddol y gwaith - mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi nodi y byddant yn rhyddhau caniatâd i gychwyn gweithredu dan Reoliad Trwydded Amgylcheddol y DU 2010 a fydd yn cael ei chymeradwyo ar 9 Mai. Yn ogystal, mae gan safle Peboc dystysgrif gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd fel gwaith o safon uchel ac effeithlon. Y rhesymau eraill a gyflwynwyd gan y Swyddog Cynllunio ar gyfer gwrthod y cais oedd materion yn ymwneud a thrafnidiaeth a'r tirlun. Mae'r safle eisoes wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer datblygiad diwydiannol gan y Pwyllgor hwn gan gynnwys mynediad o ran trafnidiaeth. Yr argymhelliad ysgrifenedig gan y Prif Beiriannydd Priffyrdd yw y gellir rhoddi amodau priodol ar y datblygiad hwn os yw'r Awdurdod yn tueddu i'w gymeradwyo. Ymddengys nad oedd y wybodaeth hon wedi ei chynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd atodiad i'r Awdurdod o ran yr Asesiad ar yr Effaith Weledol ym mis Mawrth i sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith ar y tirlun sy'n fwy nag effaith gymedrol. Nid yw hyn chwaith wedi cael ei ystyried yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gofynnodd i'r Pwyllgor oedi trafod y cais er mwyn disgwyl am benderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd ac Adrannau eraill y Llywodraeth.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs Fflur M. Hughes, Aelod Lleol, bod gwrthwynebiad cryf i'r cais hwn yn yr ardal leol. Byddai ansawdd yr aer o bryder pe bai'r gwaith hwn yn cael ei gymeradwyo ynghyd â phryderon na fyddai datblygwyr economaidd eraill yn ystyried Llangefni oherwydd lleoliad y gwaith hwn. Roedd hi o'r farn bod materion priffyrdd yn peri pryder ac y bydd loriau trymion yn cludo deunyddiau i'r gwaith ar raddfa fawr. Ystyriwyd nad oedd y ffordd i'r Stad Ddiwydiannol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer loriau trymion o'r fath. Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod llwybr troed / llwybr beicio Cefni i Falltraeth wedi ei leoli yng nghyffiniau'r Stad Ddiwydiannol ac y gallai hyn olygu nad yw pobl eisiau defnyddio'r llwybr. Cytunodd bod angen swyddi newydd yn Ynys Môn ond am ba bris? Dywedodd nad oedd Cynllun Busnes wedi cael ei gyflwyno gyda'r cais.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff) y ceir mynediad i'r safle ar hyn o bryd drwy fynedfa amaethyddol yn uniongyrchol oddi ar y prif gylchfan yn Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni. Y prif weithgaredd fyddai cynhyrchu 100,000 o dunelli'r flwyddyn o beledi pren o fewnforio o gludo i mewn oddeutu 200,000 o dunelli o goed wedi ei ddadrisglo (logiau pren bychain crwn) sgil-gynhyrchion (sglodion pren, llwch lli, toriadau). Bydd y broses o gynhyrchu peledi pren angen gwres ar gyfer sychu'r pren a phŵer i weithredu'r offer prosesu mecanyddol a fydd yn cael cyflenwad pŵer o'r gwaith biomas sy'n cyfuno gwres a phŵer solet a hylifol. Bwriedir

gwerthu'r peledi pren fel tanwydd solet sy'n garbon niwtral yn lle tanwydd ffosil mewn gorsafoedd pŵer glo ynghyd a sefydliadau gwresogi diwydiannol, masnachol a domestig eraill. Bydd y pren wedi ei ailgylchu yn cael ei ddanfon i'r safle mewn cerbydau nwyddau trymion wedi eu gorchuddio a'u trosglwyddo i'r storfa danwydd pren sydd wedi ei adennill lle bydd y pren yn cael ei dorri'n sglodion, ei raddio a'i sgrinio'n fagnetig er mwyn tynnu ymaith yr eitemau metalig. Bydd y tanwydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i ardal storio'r gwaith biomas solet lle caiff ei losgi i ddarparu'r gwres a'r pŵer sydd ei angen ar gyfer y broses peledi pren a bydd gweddill y pŵer yn cael ei anfon ar ffurf trydan i'r grid.

Dywedodd y Cynghorydd J.P. Williams bod yr ymgeiswyr yn gofyn am gael gohirio'r cais ond yn ei farn ef, roeddynt wedi cael digon o gyfle i gyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol a chynigiodd ef y dylid gwrthod y cais.  Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes y byddai'r cais yn creu swyddi yn Llangefni ond nid oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei chyflwyno gan yr ymgeiswyr o ran yr effaith a gaiff ar dagfeydd traffig ar Bont Britannia yn yr ystyr y byddai hyd at 50 o lorïau yn cludo nwyddau yn ôl ac ymlaen ar y ffyrdd.  Roedd y Cynghorydd Hughes yn eilio'r cynnig i wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

## 9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES I'R POLISÏAU

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 - 12C420 - Lledu'r fynedfa bresennol a'r llithrfa i hwyluso'r gwaith o lansio a thynnu'r bad achub o'r dŵr ym Mhier Biwmares, Llithrfa Biwmares, Biwmares.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ei ystyried oherwydd mai'r Awdurdod Lleol yw perchennog y safle.

Cynigiodd y Cynghorydd R.L. Owen y dylid cymeradwyo'r cais ac eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts y cais.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.**

### 12.2 – 19C35B – Cais llawn i osod cerflun ar dir yn Eglwys Sant Cybi, Caergybi.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor i'w ystyried oherwydd mai'r Cyngor sydd yn ei gyflwyno.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Tref Caergybi yn mynegi ei gefnogaeth i'r cais wedi i'r cyfarfod dderbyn y Rhaglen.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd R.L. Owen y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.3 – 19C163C – Cais llawn i osod delwedd ar gaeadau’r ffenestri presennol yn Swyddfa Ardal Gyrfaeodd Cymru, Stryd y Farchnad, Caergybi.**

Cyflwynwyd y cais i’r Pwyllgor ei ystyried oherwydd mai’r Awdurdod Lleol sy’n gweithredu fel asiant i’r ymgeisydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd H.W. Thomas y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.4 – 33LPA861C/CC – Codi cysgodfan i feicwyr/ysmygwyr, canopi ar y drychiad ochr ynghyd a gosod camera diogelwch yn Nepo Biffa, Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen.**

Cyflwynwyd y cais i’r Pwyllgor i’w ystyried gan fod y cais ar dir y mae’r Cyngor yn berchen arno.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.5 – 34LPA956/CC – Cais amlinellol ar gyfer dymchwel adeilad yr hen feithrinfa ynghyd â chodi 3 annedd yn Adeilad yr Hen Feithrinfa, Rhes y Nant, Llangefni.**

Daethpwyd a’r cais cynllunio i’r Pwyllgor oherwydd ei fod ar dir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn sy’n cyflwyno’r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd R.L. Owen y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.6 – 34LPA956A/CA/CC – Caniatad Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel yr hen feithrinfa yn Hen Feithrinfa Penrallt, Llangefni.**

Daethpwyd â’r cais ardal gadwraeth gerbron y Pwyllgor Cynllunio oherwydd ei fod yn cynnwys tir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn sy’n cyflwyno’r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd R.L. Owen y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.7 – 34LPA956B/TPO/CC – Torri coed sydd wedi eu gwarchod dan Orchymyn Diogelu Coed yn Hen Feithrinfa Penrallt, Llangefni.**

Daethpwyd a’r cais i dorri coed sydd wedi eu diogelu dan Orchymyn Diogelu Coed i’r Pwyllgor Cynllunio oherwydd ei fod yn cynnwys tir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn sy’n cyflwyno’r cais

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd R.L. Owen y cynig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i’r Pwyllgor.**

**12.8 – 41C103M – Cais llawn i godi anenomedr 40.5m o uchder ar dir yn Ty Gwyn, Penmynydd.**

*(Gwnaeth y Cynghorydd T.H. Jones ddatganiad o ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno).*

Cafodd y cais ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol i sylw’r Pwyllgor. Mae’r ymgeisydd yn perthyn i Aelod o staff yn yr Adran Gynllunio.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y safle oddeutu 1.1km i'r gogledd-ddwyrain o fast Penmynydd ac mewn tirwedd amaethyddol. Mae'r cais am gyfnod dros dro o 18 mis.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Owain Evans annerch y cyfarfod i wrthwynebu’r cais. Dywedodd Mr Evans bod safon y cais yn is-safonol. Mae safle’r cynllun ar raddfa 2:500 ac nid yw’n cydymffurfio gydag arfer orau 2005 y llywodraeth sy’n dweud y dylai cynlluniau fod o leiaf 1:500. Dywedodd ei fod yn bryderus nad oes arolwg lefelau wedi ei amgáu gyda’r cais. Rydym ar ddeall bod yr anemomedr yn 40.5m o uchder ond nid oes cyfeiriad at yr union ddata Arolwg Ordnans. Mae hyn yn golygu na fedrir gwneud asesiad cywir o’r lefelau. Dywedodd Mr Evans bod nifer o dderbynyddion twristiaeth allweddol o fewn 500m i'r safle a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y strwythur hwn. Er bod yr ymgeisydd yn dweud y bydd yr anemomedr yn cael ei godi am gyfnod dros dro o 18 mis, bydd yn cael effaith ar unwaith ar fusnesau twristiaeth. Dywed Saville bod y datblygiad yn ffurfio rhan o’r datblygiad mawr ar gyfer tyrbinau gwynt, yn wyneb hyn, a ddylent fod wedi cyflwyno cais sgrinio eang ar gyfer yr anemomedr cyn cyflwyno'r cais? Yn wyneb y safiad a gymerwyd gan yr Awdurdod i beidio ag ystyried ceisiadau nad ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â thyrbinau gwynt, a ddylid fod wedi cyflwyno’r cais hwn i'r Pwyllgor Cynllunio o gwbl? Ar hyn o bryd mae 7 o geisiadau sgrinio yn disgwyl am benderfyniad mewn ardal fechan a gallent fod yn gyfystyr â fferm melinau gwynt. Mae'r safle arfaethedig mewn ardal o werth dirweddol mawr ac o safon hynod. Roedd yn annog y Pwyllgor i wrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones, Aelod Lleol, ei fod yn cefnogi sylwadau Mr Evans. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r CCA - Tyrbinau Gwynt, derbyniwyd 900 o sylwadau oedd yn dangos y gwrthwynebiad cryf i dyrbinau gwynt ar Ynys Môn. Dywedodd ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda'r trigolion lleol ym Mhenmynydd a Gaerwen ac roedd y gwrthwynebiad i ddatblygiadau o'r fath yn aruthrol. Roedd o'r farn bod angen i’r awdurdod wrando ar lais y trigolion lleol.

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas y bu cais tebyg gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion rai misoedd yn ôl. Dywedodd y cai anemomedr yn y lleoliad hwn effaith weledol ar yr ardal. Cynigiodd y dylid gwrthod y cais. Eiliodd y Cynghorydd R.L. Owen y cynnig i wrthod. Roedd y Cynghorydd Lewis Davies yntau yn cytunoy câi effaith ar yr ardal leol ac effaith ecolegol ynghyd â'r effaith ar dwristiaeth a hefyd ar draws Afon Menai. Dywedodd ymhellach y cai effaith ar hanes amaethyddol Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes ei fod yn cynnig cymeradwyo’r cais ac eiliodd y Cynghorydd C. McGregor y cynnig.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod Cyngor Cymuned Penmynydd wedi ysgrifennu at yr Adran Gynllunio'r bore hwn yn mynegi ei wrthwynebiad i’r cais. Dywedodd bod yr Adran Briffyrdd hefyd wedi ymgynghori gyda’r Adran Gynllunio gan ddweud y byddent angen cynllun rheoli traffig gyda’r cais os oedd am gael ei gymeradwyo ac y byddai’n rhaid rhoddi amod ar y caniatâd cynllunio. Nid oedd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru unrhyw sylwadau ac nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn unrhyw wrthwynebiadau i'r datblygiad. Dywedodd y Swyddog y derbyniwyd oddeutu 100 o lythyrau o wrthwynebiad mewn perthynas â'r cais hwn ond mae'r

rhan fwyaf o'r rheini yn gwneud y cyswllt rhwng y mast a thyrbin gwynt. Dywedodd nad yw cymeradwyo'r mast yn golygu bod y Pwyllgor mewn unrhyw fodd yn cefnogi unrhyw geisiadau am dyrbinau gwynt yn y dyfodol.

Dyma oedd y bleidlais:-

**Gwrthod y cais yn groes i argymhellion y Swyddog**: Y Cynghorwyr E.G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, R. L. Owen, Eric Roberts, H.W. Thomas. **Cyfanswm 6**

**Cymeradwyo'r cais:** Y Cynghorwyr K.P. Hughes, W.T. Hughes, C. McGregor, J. Arwel Roberts. **Cyfanswm 4**

Y rhesymau a roddwyd am wrthod y cais oedd bod yr Aelodau o'r farn y cai'r cais effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd ac ar dwristiaeth.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhellion y Swyddog. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoddi i'r Swyddogion y cyfle i baratoi adroddiad ar y rhesymau am beidio â chymeradwyo'r cais.**

**12.9 –41LPA957/CC – Cais llawn i greu canolfan ail-gylchu gwastraff domestig ynghyd gwaith cysylltiedig yn safle Claddu Gwastraff, Penhesgyn, Porthaethwy.**

Cyflwynwyd y cais gan Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y bwriedir gosod amodau o ran draenio ac oriau gwaith. Derbyniwyd llythyr o wrthwynebiad ddoe.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones, yr Aelod Lleol, bod trigolion cyfagos wedi cwyno nad oeddynt yn gwybod am y cais ac wedi gofyn am gael ei weld i wneud sylwadau. Roeddynt yn pwysleisio nad oeddynt o angenrheidrwydd yn gwrthwynebu'r cais.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar ôl cyfnod o 21 diwrnod ac ar yr amod na ddaw unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol o bwys i law yn y cyfamser.**

**12.10 - 42C107B - Dymchwel yr ystafell haul gyfredol ynghyd â gwneud gwaith altro ac ymestyn yn Bryn Hyfryd, Lon Clai, Pentraeth.**

Dygwyd y cais gerbron y Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Jack Owen annerch y cyfarfod i wrthwynebu'r cais. Dywedodd Mr Owen ei fod yn byw ym Mhentraeth a'i fod yn Aelod o Gyngor Cymuned Pentraeth. Dywedodd bod Bryn Hyfryd yn gorwedd yn gyfforddus mewn AHNE mewn lleoliad uchel ger eiddo cyfagos Ty'n Berllan ac mae'r eiddo'n ffryntio'n hollol agored ar Lon Clai, lon ddi-ddosbarth sy'n arwain o'r A50525 i Draeth Coch. O archwilio'r cais cynllunio yn fanwl, gwelir mai nid y gwaith dymchwel, altro ac ymestyn yn unig y gofynnir amdano, mae'r lluniadau'n datgelu y gofynnir am ganiatâd i godi balconi ar y llawr cyntaf ar ffrynt yr eiddo. Bydd y balconi arfaethedig yn newid edrychiad yr adeilad ac yn creu anghydbwysedd yn ei ffryntiad ac yn golygu bod Ty'n Berllan yn colli preifatrwydd. Bydd ei ffurf yn cymryd drosodd y drychiad blaen yn Bryn Hyfryd. Yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Ynys Môn ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig a fabwysiadwyd ym Mawrth 2007 'gadewch i'ch cymdogion wybod am y gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud ar eich eiddo'. Mae'n anffodus bod yr ymgeisydd wedi methu ag ymgynghori gyda'i gymdogion sy'n byw yn Ty'n Berllan a bod yr awdurdod wedi methu pasio manylion y cais cynllunio i Ty'n Berllan. Bydd y balconi arfaethedig yn golygu bod yr eiddo cyfagos yn colli preifatrwydd: bydd newid edrychiad yr adeilad yn creu anghydbwysedd ar ffryntiad yr adeilad ac ni fyd yn cydweddu gyda'r AHNE a bydd ffryntiad Bryn Hyfryd yn hollol agored i Lon Clai sef ffordd a ddefnyddir gan drigolion ac ymwelwyr i gael i Draeth Coch. Bydd y balconi arfaethedig yn cymryd drosodd ac yn creu amgylchedd anghyfforddus i rai sy'n defnyddio Lon Clai. Ni

chafwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â dymchwel yr ystafell haul gyfredol ynghyd a’r gwaith altro ac ymestyn.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Owain Evans annerch y cyfarfod fel asiant yr ymgeisydd. Dywedodd Mr Evans y bydd y datblygiad arfaethedig yn gwella'r adeilad fel y mae ar hyn o bryd yn Bryn Hyfryd. Nododd bod y cymydog yn Ty'n Berllan wedi mynegi pryderon ynglŷn â’r cais ond pwysleisiodd bod adeilad wedi ei leoli rhwng Bryn Hyfryd a Ty'n Berllan ar hyn o bryd. Mae perchennog eiddo cyfagos wedi mynegi pryderon ynghylch colli preifatrwydd. Ym marn yr asiant, ni fydd y balconi arfaethedig yn cael effaith ar Ty'n Berllan oherwydd bod uchder brig yr ystafell atodol sydd rwng y ddau eiddo mor uchel, na fyddai modd gweld y balconi. O ran y CCA - Dylunio a phryderon y cymdogion y bydd yn edrych dros eu hystafell wely, bydd y balconi arfaethedig yn 30m; ma’r CCA - Dylunio yn nodi’r angen yn 21m. Dywedodd Mr Owen bod talcen yr eiddo ac ochr y balconi i’w weld o Lon Clai. Mae'r asiantiaid wedi ceisio bod yn gydymdeimladol o ran dyluniad y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas, Aelod Lleol y bu pryderon yn y gymuned mewn perthynas â'r cais hwn. Mae Cyngor Cymuned Pentraeth Cyngor wedi cyflwyno eu gwrthwynebiad i'r cais. Mae trigolion Ty'n Berllan wedi dweud nad ydynt wedi derbyn rhybudd ynglyn â’r cais ac wedi gofyn i’r Adran Gynllunio ymchwilio i'r mater. Roedd o yn anghytuno gyda sylwadau’r Asiant sef nad oes modd gweld ffrynt yr eiddo o Lon Clai. Dywedodd y Cynghorydd Thomas y bydd y datblygiad yn cael effaith ar welededd yr eiddo cyfagos. Dywedodd y dylai'r Pwyllgor efallai ymweld â'r safle. Dywedodd Cynghorydd E.G. Davies ei fod yn cynnig ymweld â’r safle ar ôl gwrando ar ddatganiad yr Aelod Lleol. Ni chafwyd eilydd i’r cynnig.

Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio i sylwadau’r Aelod Lleol nad oedd perchnogion Ty'n Berllan wedi derbyn rhybudd o’r datblygiad arfaethedig; anfonwyd y rhybudd at berchnogion Ty'n Berllan ar 2 Mawrth, 2012.

Dywedodd y Swyddog ei fod yn cytuno gydag Asiant yr ymgeisydd o ran y ffaith y bydd y datblygiad arfaethedig yn edrych dros eiddo’r cymdogion; nid yw’r Swyddogion Cynllunio wedi dweud y cai’r cynigion effaith andwyol ond wedi nodi yn syml y bydd rhywfaint o gymesuredd y drychiad blaen yn cael ei golli.

Cynigiodd y Cynghorydd K.P. Hughes y dylid cymeradwyo’r cais ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd R.L. Owen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda’r amodau a amlinellir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.**

*Ni phleidleisiodd y Cynghorydd H.W. Thomas ar y cais hwn.*

Cychwynnodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.20 p.m.

**Y CYNGHORYDD J.ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**